**Sut y mae Llywodraeth y DU yn cyflawni ei hymrwymiadau i bobl Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau Cymru gryfach o fewn Teyrnas Unedig gryfach mewn ystod eang o feysydd. Rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r sialensiau sy'n wynebu ein gwlad ac adeiladu Prydain sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

**Economi: Byddwn yn cefnogi economi Gymreig sy’n gref, yn edrych tuag allan ac yn fyd-eang**

Mae Llywodraeth y DU wedi gosod y sylfeini ar gyfer economi gryfach sy’n darparu ar gyfer Cymru. Rydym yn cefnogi'r arloeswyr sy'n darparu twf yng Nghymru. Ers 2010, dim ond Llundain sydd wedi profi twf cyflymach y pen na Chymru. Rydym yn helpu busnesau i greu swyddi gwell, sy'n talu'n uwch. Mae'r farchnad swyddi yng Nghymru yn parhau'n llewyrchus a chadarn. Mae 95,000 yn fwy o bobl mewn swyddi yng Nghymru nag yn 2010, gan gynnwys 74,000 yn fwy o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector preifat.

Yng Nghymru, bydd y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth y DU i'r lwfans personol wedi dod â 61,000 o bobl allan o dreth incwm yn gyfan gwbl yn ystod 2018-19 o'i gymharu â 2015-16, ac ynghyd â’r cynnydd i’r trothwy cyfradd uwch bydd 1.4 miliwn o bobl wedi elwa £183 ar gyfartaledd.

1) **Cefnogi polisi buddsoddi masnach a thramor sy'n darparu ar gyfer Cymru**

Mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi busnesau yng Nghymru ac yn creu'r amodau iawn ar gyfer twf - mae 18,000 o fusnesau bach a chanolig ychwanegol yng Nghymru erbyn hyn o’i gymharu â 2010. Rydym hefyd yn helpu mwy o fusnesau yng Nghymru i gael mynediad i farchnadoedd allforio, ac mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Adran Masnach Ryngwladol yn cydweithio i ddenu buddsoddiad uniongyrchol o dramor i Gymru. Y llynedd, roedd 85 o brosiectau Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor i Gymru, a derbyniodd 95% o'r rhain gymorth gan yr Adran Masnach Ryngwladol. Mae rhaglenni Banc Busnes Prydain yn hwyluso dros £268 miliwn o gyllid i dros 1500 o fusnesau bach yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys rhoi Benthyciadau Dechrau Busnes i fusnesau yng Nghymru. Ers i’r rhaglen gychwyn yn 2012, mae dros 2,100 o fenthyciadau wedi cael eu rhoi i fusnesau yng Nghymru, sy’n gyfwerth â dros £17 miliwn (ar ddiwedd mis Hydref 2017).

2) **Cyflawni buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn seilwaith**

Mae gwella seilwaith trafnidiaeth Cymru yn allweddol i ffyniant economaidd Cymru yn y dyfodol. Dyna pam mae Llywodraeth y DU wedi rhoi £1 biliwn o fenthyciad i Lywodraeth Cymru i hybu buddsoddiad mewn prosiectau

seilwaith hanfodol yng Nghymru. Fel rhan o'n rhaglen hanesyddol o fuddsoddi yn y rheilffyrdd rydym yn trydaneiddio Prif Linell Great Western i Dde Cymru a sicrhau bod y trenau deufodd mwyaf cyfoes Intercity Express yn gwasanaethu teithwyr ar y llwybr hollbwysig o Abertawe i Lundain. Yn ogystal â hynny, bydd Crossrail yn gwella'r amseroedd teithio byrrach yn sgil trydaneiddio’r brif linell – gan wella amseroedd teithio rhwng De Cymru a Canary Wharf.

Ar ôl trosglwyddo Pontydd Hafren i reolaeth gyhoeddus ar 8fed Ionawr 2018, bydd modurwyr yn gweld gostyngiad o 20% mewn tollau, ac ar ddiwedd 2018, bydd y holl dollau ar y croesfannau yn cael eu diddymu, yn unol â chyhoeddiad y Llywodraeth ar 21 Gorffennaf 2017. Bydd y penderfyniadau hyn a gymerwyd gan Lywodraeth y DU yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng cymunedau ac yn helpu i drawsnewid rhagolygon economaidd De Cymru a De Orllewin Lloegr fel ei gilydd.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cydnabod y byddai moderneiddio Prif Linell Arfordir Gogledd Cymru yn hwb sylweddol i gysylltiadau trafnidiaeth y rhanbarth, gan wneud y gorau o'r manteision a ddaw yn sgil llinell HS2 rhwng Crewe a Llundain. Bydd HS2 yn golygu trawsnewidiad economaidd i'r wlad gyfan, a bydd dod â HS2 i Crewe yn 2027 - chwe blynedd yn gynnar - yn gyfle gwych i Ogledd Cymru deimlo'r manteision hyd yn oed yn gynt.

Er mwyn sicrhau bod pawb yn rhan o'r economi ddigidol, mae cyflwyno band eang cyflym iawn wedi parhau ar draws Cymru drwy gyllid a roddwyd gennym i Lywodraeth Cymru.  Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o bwerau mewn perthynas â gwasanaethau symudol. Er hyn, rydym wedi gweithio gyda'r diwydiant symudol i sicrhau cytundeb nodedig fydd yn gwarantu gwasanaeth llais a thestun gan bob gweithredwr ar draws 90% o'r DU erbyn diwedd 2017.

Rydym yn diogelu ein diogelwch ynni hir-dymor am genedlaethau i ddod drwy hwyluso buddsoddiad mewn cyflenwadau ynni glân, ond fforddiadwy. Rydym yn cydweithio â datblygwyr ar eu cynigion am brosiectau ynni strategol yng Nghymru fel gorsaf bŵer niwclear Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Byddai buddsoddiad Hitachi yn y datblygiad niwclear arfaethedig yn Wylfa werth hyd at £20 biliwn i'r DU. Gallai greu hyd at 1,000 o swyddi parhaol, gyda gweithlu adeiladu o hyd at 4,000 o weithwyr am y rhan fwyaf o'r amser, ac yn darparu cyfleoedd gwych i fusnesau Cymru fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi.

Rydym wedi buddsoddi £212 miliwn yng ngharchar newydd y Berwyn, a dderbyniodd ei garcharorion cyntaf ym mis Chwefror 2017. Mae'r carchar eisoes wedi cyfrannu dros £100 miliwn i'r economi leol ac wedi creu tua 150

o swyddi a phrentisiaethau. Yn ôl yr amcangyfrifon, mae’r prosiect werth tua £23 miliwn mewn refeniw blynyddol i’r economi ranbarthol gan greu hyd at 1,000 o swyddi.

**3) Sicrhau bod polisi rhanbarthol y DU yn gweithio i Gymru**

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ail-gydbwyso economi'r DU, gan sicrhau bod pob rhan o'r DU yn gallu ffynnu a gwireddu ei photensial yn ei ffordd ei hun. Bydd ein rhaglen o Fargeinion Dinesig a Bargeinion Twf yn golygu bod gan bob ardal yng Nghymru gyfle i gyflwyno cynigion i ddatgloi twf economaidd sy'n diwallu eu hanghenion lleol unigryw.

Fel rhan o hyn, rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol a Llywodraeth Cymru i weithredu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y Fargen yn darparu dros bron i £1.2 biliwn o fuddsoddiad i'r rhanbarth a’i nod fydd creu dros 25,000 o swyddi. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid lleol i ddarparu Bargen Ddinesig ar gyfer Rhanbarth Bae Abertawe fydd yn darparu £1.3 biliwn o fuddsoddiad i'r rhanbarth gyda’r nod o greu dros 9,000 o swyddi. Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau trafodaethau ffurfiol ar Fargen Twf Gogledd Cymru ac rydym wedi ymrwymo i ystyried cynigion ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru pe bai'r ardal leol yn awyddus i’w datblygu.

Mae bargeinion twf lleol yn rhan allweddol o'n Strategaeth Ddiwydiannol a gyhoeddwyd yn ddiweddar - strategaeth ar gyfer y DU gyfan sy'n darparu cynnig cryf ar gyfer llefydd, busnesau a phobl yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â Lloegr.  Mae’n gynnig cryf ar arloesedd drwy Gronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol a'r Gronfa ‘Strength in Places’ newydd; ar flaenoriaethu lleoliadau drwy Fargeinion Dinesig, coridorau twf trawsffiniol a strategaethau diwydiannol lleol; a chynnig cryf ar Fargeinion Sector a seilwaith digidol. Mae gan Gymru hefyd gryfderau arloesi sylweddol sy'n cyd-fynd â'r pedwar Her Fawr, sydd wedi'u cynllunio i roi'r DU ar flaen y gad o fewn diwydiannau'r dyfodol.

Rydym yn gweithio gydag adrannau eraill i fwrw ymlaen â'r ymrwymiad  a wnaed yn y maniffesto i greu Cronfa Ffyniant y DU fydd yn cael ei rhannu. Byddwn hefyd yn trafod y gronfa gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru a'r DU cyn gynted â phosib.

**Gadael yr UE: Byddwn yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn wrth i ni adael yr UE**

Rydym yn gweithio'n agos gydag adrannau ar draws Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ymadawiad y DU o'r UE yn darparu ar gyfer pob rhan o'r DU.

4) **Gweithredu proses ymgysylltu effeithiol gyda rhanddeiliaid ynglŷn â gadael yr UE**

Mae’r adran yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid ledled Cymru i sicrhau bod y Llywodraeth yn cynnwys eu safbwyntiau ynglŷn â gadael yr UE. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi sefydlu Panel Arbenigol ar Adael yr UE, sy'n cwrdd yn rheolaidd, i ystyried materion sy'n gysylltiedig â'n ymadawiad o'r UE, ac yn benodol, y lle gorau i roi’r pwerau fydd yn cael eu dychwelyd o'r UE yn y dyfodol.

Mae’r Ysgrifennydd Gwladol a’i Weinidogion hefyd wedi cadeirio cyfarfodydd ford gron gyda gwahanol sectorau o economi Cymru i ystyried effeithiau gadael yr UE ar Gymru. Mae'r rhain wedi cynnwys trafodaethau gyda'r sector ynni, y sector gwyddorau bywyd a mudiadau gwirfoddol o bob cwr o Gymru.

5) **Sicrhau bod Bil yr UE (Tynnu'n Ôl) yn darparu ar gyfer Cymru a'r DU**

Rydym yn cydweithio'n agos â DExEU, Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill ar agweddau datganoli Bil yr UE (Tynnu'n Ôl) ac rydym wedi bod yn trafod y Bil yn helaeth gyda Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad. Mae'r trafodaethau hyn wedi cynnwys trafodaethau o’r ddwy ochr, fel cyfarfodydd y Prif Ysgrifennydd Gwladol gyda Phrif Weinidog Cymru a thrafodaethau amlochrog drwy'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion.

Rydym yn gwneud cynnydd da yn ein trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynglŷn â ble y dylid cael fframweithiau cyffredin, neu beidio, ym meysydd cyfreithiol yr UE sy’n dychwelyd ac sy'n croestorri â setliad datganoli Cymru. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ynglŷn â lle gellid cywiro diffygion mewn deddfwriaeth seneddol a Llywodraeth y Cynulliad o ganlyniad i adael yr UE.

**Cenedl Unedig: Byddwn yn darparu setliad datganoli clir a chynaliadwy**

6) **Gweithredu Deddf Cymru 2017**

Rydym yn parhau i sicrhau bod y setliad datganoli presennol yn gweithio'n effeithiol er lles pobl Cymru a gweddill y DU drwy oruchwylio’r broses o gyflwyno'r pwerau a gynhwysir yn Neddf Cymru 2017.

Derbyniodd Deddf Cymru Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017 a bydd yn darparu setliad datganoli clir i Gymru sy’n seiliedig ar y model cadw pwerau newydd fydd yn cael ei roi ar waith ar 1 Ebrill 2018. Bydd y Ddeddf hefyd yn cryfhau datganoli yng Nghymru - datganoli pwerau newydd pwysig mewn

ynni, trafnidiaeth a llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad a all wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl yng Nghymru. Bydd hefyd yn rhoi mwy o reolaeth i'r Cynulliad dros ei faterion ei hun, gan gynnwys beth mae'n galw ei hun, ei faint, a nifer yr aelodau sy'n cael eu hethol.

Yn ystod hynt y Bil, cytunodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fframwaith cyllidol i Gymru sy'n gwarantu lefelau cyllido teg ar gyfer yr hir-dymor ac yn gweithredu'r cyllid gwaelodol a ymrwymwyd yn 2015. Defnyddiwyd yr addasiadau i fformiwla Barnett, y mae'r fframwaith cyllidol yn eu cynnwys, am y tro cyntaf yng Nghyllideb yr hydref eleni, gan arwain at Lywodraeth Cymru yn derbyn £69 miliwn o gyllid ychwanegol. Fe wnaethom hefyd gytuno i ddyblu terfyn benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru fel y gall nawr fenthyg hyd at £1 biliwn i fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru.

**7) Cefnogi buddiannau diwylliannol Cymru yng Nghymru a'r DU**

Rydym yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ac rydym yn gweithio gydag adrannau eraill i sicrhau bod cynrychiolaeth Gymreig ar gyrff cyhoeddus y DU. Rydym wedi gwireddu ymrwymiad y maniffesto i gynnal adolygiad annibynnol o S4C. Yn dilyn ei gyhoeddiad, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod S4C yn parhau ar sylfaen gynaliadwy ac y gall barhau i hyrwyddo'r Gymraeg a hyrwyddo rhai o dalentau gorau Prydain i siaradwyr Cymraeg ledled y byd.

Rydym yn parhau i ddarparu cymdeithas fwy diogel yng Nghymru. Ers 2010, mae troseddau yng Nghymru wedi gostwng, ac yn y Senedd hon rydym am gyflwyno deddfwriaeth i foderneiddio system y llysoedd a diogelu dioddefwyr trais yn y cartref. Mae hyn yn cyd-fynd â'n cyhoeddiad ym mis Gorffennaf 2017 i ddyfarnu £1.4 miliwn i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ar gyfer eu Rhaglen Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn Ne Cymru. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gan yr heddlu a'r gwasanaethau diogelwch yr holl bwerau angenrheidiol i fynd i'r afael â therfysgaeth ac eithafiaeth.